Arboricultural Association

# CYNLLUN STRATEGOL

2022–2024

Arboricultural ASSOCIATION
trees.org.uk



Cartref Gofal am Goed

Cyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan
**Arboricultural Association,**
The Malthouse, Stroud Green, Standish,
Stonehouse, Swyddd Gaerloyw GL10 3DL

Ffôn: +44 (0)1242 522152
E-bost: admin@trees.org.uk
Gwefan: www.**trees**.org.uk

Cyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Tachwedd 2021.

Arboricultural Association Ltd. Cwmni sydd wedi ei gofrestri yn Lloegr yn
The Malthouse, Stroud Green, Standish,
Stonehouse, Swyddd Gaerloyw GL10 3DL, UK.
Rhif y cwmni 4070377.

Mae'r Arboricultural Association yn elusen gofrestredig rhif 1083845.

Hawlfraint @ Arboricultural Association 2021. Cadwyd holl hawliau.

Cynhyrchwyd Cynllun Strategaethol y Gymdeithasfa Goedwigaeth
2022-2024 gan staff y Gymdeithasfa a'r Ymddiriedolwyr.
Mabwysiadwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 20 fed o Hydref 2021

Cyfieithiwyd gan Diane Evans.

# RHAGAIR
## GAN Y BRIF SWYDDOG GWEITHREDOL A'R YMDDIRIEDOLWYR



### BETH YW COEDYDDIAETH?

Gofynnwyd y cwestiwn yma nifer o weithiau dros y blynyddoedd wrth geisio esbonio ein swydd, ein hobi ac ein hangerdd. Mae gennym i gyd ein ffordd personol o ddisgrifio y gair yma sydd heb ei ddeall gan unrhyw un arall. Efallai byddai'n well ateb gyda disgrifiad technegol, rhywbeth tebyg i y **gwyddoniaeth a'r arfer o drin, sefydlu a rheoli coed er lles y gymdeithas**.


Mewn geiriau syml mae'n bosib i ddisgrifio coedyddiaeth mewn dau air: **gofal coed**. Os ydym yn gweithio fel contractwr, ymgynghorwr, swyddog coed, rheolwr, cynllunwr polisau, ymchwilydd, hyfforddwr, yn y byd addysg, darpariaeth meithrin, academia neu unrhyw fath o waith amrywiol a chyffrous o fewn coedyddiaeth - rydym oll yn gyfrifol am ofal coed. Os ydym yn weithwyr proffesiynol, myfyrwyr, gwirfoddolwyr neu yn aelodau o grwpiau cymunedol rydym oll yn rhan o'r gymdeithas 'gofal coed'.

### BETH YDY'R GYMDEITHASFA GOEDYDDIAETH?

Rydym yn elusen, yn fudiad o aelodau ac yn gorff proffesiynol sy'n cynrychioli yr holl sbectrwm o weithwyr ym maes coedyddiaeth ac hefyd yn gartref i 'gofal coed'. Ceisiwn hybu pwysigrwydd coed ac hefyd pwysigrwydd y gweithwyr coedyddiaeth proffesiynol i'r cyhoedd yn gyffredinol, gwleidyddion a sectorau eraill. Gyda sail mor eang o aelodau, cynulleidfa a chylch gwaith amrywiol mae'n allweddol ein bod yn glir iawn o'n safiad ac ein rol .

Mae'r Cynllun Strategol yn gwneud hwnna, yn sefyll am weledigaeth ac amcanion ac yn darparu fframwaith uchel-geisiol sy'n parhau dros gylch dair mlynedd. Cafodd ei gynhyrchu fel ymdrech ar y cyd gan asiad o'r tim yn ogystal ag Ymddidiriedolwyr a chynrychiolwyr eraill o'r aelodaeth. Ein gobaith yw bod y ddogfen hon yn rhoi blas o'r hyn ydyn ac hefyd i ble ydyn yn dyrchafu.

Mae'n amser gyffrous yn ein proffesiwn, ac er bod nifer o sialensau heriol o'n blaen, mae hefyd nifer o gyfleoedd. Gobeithiwn y byddwch yn ffeindio y Cynllun Strategol yn ddefnyddiol ac y bydd yn eich ysbrydoli i gymryd rhan wrth helpu tyfu ein mudiad, ac hefyd ein proffesiwn at y lefel nesaf. Cofiwch yng ngheiriau Dr. Seuss a'r Lorax "**unless someone like you cares a whole awful lot, nothing is going to get better. It's not.**"



John Parker
*Prif Swyddog Gweithredol, Arboricultural Association*

# AMDANOM NI


**Y Gymdeithasfa Goedyddiaeth yw'r symudiad blaenorol yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu gofal coed proffesiynnol sy'n gweithio ym mhob agwedd o goedyddiaeth e.e. ymgynghoriaeth, contractio, rheolaeth, cynhyrchiad, llunio polisiau, ymchwilo ac addysgu. Mae mwy na 3000 o aelodau yn y Deyrnas Unedig ac o gwmpas y byd, ac yn cael eu cydnabod yn fwy fwy fel arweinydd cenedlaethol a rhyngwladol ym maes coedyddiaeth. Mae'r Gymdeithasfa yn ddibynnol ar ei haelodau, a'i gwirfoddolwyr gan gynnwys ei ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor a swyddogion lleol - ac hefyd staff cyflwynedig sy'n gweithredu yn y 'Malthouse yn Stonehouse. Swydd Gaerloyw.'**

Mae'r Gymdeithasfa wedi ei hadnabod fel man ffocal am ymarfer da o fewn gofal coed gan adrannau llywodraethol canolig a phartneriaid fel y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol am ymarfer da o fewn maesgofal coed. Mae'r Gymdeithasfa yn unigryw gan fod ei haelodaeth yn gweithredu ar draws holl sbectrwm y proffesiwn. Mae'n cynrychioli ei haelodau ar nifer o brosiectau, gweithgorau a grwpiau amrywiol ac yn cydweithredu yn agos gyda phartneriaid rhyngwladol fel y Cyngor Coedyddiaeth Ewropiaidd, y Fforwm Ewropiaidd ar Goedwigaeth Drefol a'r Gymdeithas Ryngwladol ar Goedyddiaeth.

Mae'r Gymdeithasfa yn elusen yn ogystal ag aelodaeth sy'n gweithio tuag at flaenori gwyddoniaeth coedyddiaeth a chodi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ofal coed yn fyd-eang gan ysbrydoli y cyhoedd am bwysigrwydd coed ac am y gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanynt. Mae llawer o'r gwaith yma yn cael ei cwblhau ar lefel cymdeithasol a digwyddiadau cyhoeddus, aelodaeth o ysgolion, gweithrediad gwleidyddol ac yn ddiweddarach oherwydd bodlonrwydd blaengaredd Cefnogwyr Gofal Coed a bodlonrwydd y cyhoedd.

Mae graddiau aelodaeth ar gael ar gyfer pobl proffesiynnol coedyddiaeth ac mae'r Gymdeithasfa yn cynnig ystod eang o wasanaethau a budd-daliadau. Mae cyrsiau hyfforddi ar gael ar gyfer ein haelodau ar bob achlysur yn eu gyrfa proffesiynol mewn nifer o feysydd yn bersonol, ar draws y wlad ac hefyd ar lein. Mae ein calendr brysur yn cynnwys Sioe ARB , Cynhadledd Flynyddol Coed Cymunedol - y gynhadledd bwysicaf yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud a choedyddiaeth elenni - a rhaglen cyflawn ar-lein sy'n cynnwys gweminar clodwiw wedi ei mwynhau gan wylwyr byd eang mewn mwy na 140 o wledydd.

Mae'r Contractiwr Cymeradwy, Contractiwr Defnyddioldeb Cymeradwy a chynllun Ymgynghorydd Achredig Cofrestredig yn helpu codi safonau, cynhyddu safonau proffesiynol a chodi ymwybyddiaeth o goedyddiaeth. Mae'r Gymdeithasfa yn cynhyrchu dogfennau canllawiau arfer gorau ac hefyd dau gyhoeddiad pob pedwar mis sef yr ' *ARB Magazine* and *Arboricultural Journal*.' Mae'r Gymdeithasfa wedi gweithio'n ddidwyll er lles ein haelodau, y proffesiwn ac ar gyfer y gymdeithas ehangach ers mwy na phumdeg mlynedd ac fe fyddwn yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol.



# Y DDOGFEN HON

**Pwrpas y ddogfen hon yw sefydlu strategaeth y Gymdeithasfa Goedyddiaeth ar gyfer y cyfnod yma. Cyflawnwyd gan aelodau o'r Gymdeithasfa a'r Ymddiriedolwyr ac mae'n adlewyrchu y cyfeiriad y byddwn yn cymryd dros y dair mlynedd nesaf. Mae'n ymwneud nid yn unig a Phroffesiwn Goedyddiaeth ond hefyd at gymdeithas ehangach gofal coed - rheini sy'n weithwyr proffesiynol a rheini sydd a gwir diddordeb mewn ag angerdd dros goed cymunedol a threfol. Mae'n ddogfen strategaethol ar lefel uwch sy'n cyflwyno 'beth' yn hytrach na 'sut'.**

Mae'r Gymdeithasfa Goedyddiaeth yn fudiad blaengar, cynyddol a chynhwysol a gan ein bod y corff blaenorol proffesiynol mewn maes coedyddiaeth yn y Deyrnas Unedig y gobaith yw i ysbrydoli'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd i dderbyn yr egwyddorion a osodwyd gennym. Mae coedyddiaeth yn y Deyrnas Unedig yn denu parch ar draws y byd ac mae gan y Gymdeithasfa ffocws cryf yn rhyngwladol. Mae'n ceisio cyfathrebu gyda phobl o'r un anian yn ogystal a sefydliadau ar draws y byd.

Trwy'r weledigaeth ac amcanion strategaethol a'r rhai sydd wedi eu hamlinellu yn ein dogfen fe obeithiwn sicrhau bod coedyddiaeth dal i gael ei hystyried fel proffesiwn unigryw ac yn yrfa hyfyw ar gyfer pawb sydd eisiau ymuno, gan barhau i gynnig cymorth i'n haelodaeth presenol tra bo'n estyn llaw at gynulleidfa eang iawn. Mae ein proffesiwn ni yn llawn pobl anghredadwy ac mae'r potensial yn anhygoel ac mae'r Gymdeithasfa yn ymrwymedig i weithio gyda chwi oll er mwyn troi'r potensial yn realiti.



# HERIAU A CHYFLEOEDD

## HERIAU

### COEDYDDIAETH FEL PROFFESIWN

Mae'n anffodus wrth sgwrsio yn bellach am goed y gall coedyddiaeth golli ei statws fel proffesiwn. Mae'n wir bo rhaid i ni sgwrsio yn ddidwyll gyda phroffesiynau er enghraifft ecoleg, garddwriaeth a choedwigaeth (gan enwi ychydig yn unig) mae'n hanfodol er lles ein coed cymunedol a threfol y bod coedyddiaeth yn cael ei derbyn fel proffesiwn unigryw.

### DILYNIANT

Mae'n gyffredin i glywed yn anecdotaidd bod problem dilyniant a recriwtio ar draws y proffesiwn gydag angen am ymgeiswyr o ansawdd uchel i geisio am swyddi ym maes coedyddiaeth. Er bod pethau i weld yn gwella nid yw ein proffesiwn yn cynrychioli ein cymdeithas gwaith ac mae llawer mwy i gyflawni i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn coedyddiaeth.

### CYLLID AC ADNODDAU

Ym mlynyddoedd llwm 2010 fe wnaeth rheolaeth coed dioddef yn enwedig ar lefel Awdurdod Lleol gan nad oedd swyddogion coed ar gael ac i'r rhai oedd ar gael roedd disgwyl iddynt gynnig llawer mwy mewn sefyllfaoedd anodd. Dydy'r problemau ddim wedi diflannu, yn wir maent wedi gwaethygu ac yn ystod y blynyddoedd nesaf efallai byddwn yn teimlo hyn ar draws ein cymdeithas.

### ARGYFWNG HINSAWDD

Argyfwng hinsawdd - ac hefyd canlyniadau amgylcheddol cymdeithasol ac economaidd - mae hyn yn achosi sialensau i'r gymdeithas ofal coed. Mae rhain yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau eithafol ac yn achosi risg eithafol o blau a chlefydau a materion hir-dymor o gwmpas sut y bydd ein coed cyfarwydd yn ymdopi o dan amgylchiadau gwahanol - dyma broblem sydd weithiau yn cael ei wneud yn waeth oherwydd ein agosatrwydd at goed brodorol.

### PLAU A CHLEFYDAU

Mae rhestr hir o blau ac afiechydon yn creu risg i goed cymunedol a threfol, ac mae rheini sydd yn gweithio ym myd coedyddiaeth ar reng flaen y frwydr i amddiffyn ein coedwigoedd trefol. Mae'r problemau sy'n gysylltiedig ag afiechydion fel gorymdaith y gloyn derw ac hefyd lladdfa yr onnen yn gyffredin iawn, gydag eraill fel Xyello a 'canker stain of plane' yn aros amdanym.



**Yn ystod y cylch tair mlynedd nesaf fe fydd rhaid i'r Gymdeithasfa wynebu sialensau allweddol. Fodd bynnag mae'r sialensau yma yn cyflwyno cyfleoedd newydd.**

# CYFLEOEDD

## PROFFIL CYHOEDDUS A GWLEIDYDDOL AM GOED

Mae proffil cyhoeddus a gwleidyddol am goed erioed wedi bod mor bwysig, ac nid yw'r gwerthfawrogiad o goed trefol a chymunedol erioed wedi bod mor flaenllaw. Mae'n allweddol ein bod yn cymryd mantais o'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n gwerthfawrogi coed gymaint - yn ogystal a rheini yn y dyfodol - yn deall pwysigrwydd proffesiwn coedyddiaeth a pha mor allweddol ydy er mwyn tyfu coed trefol a chymunedol iach ar gyfer y gymdeithas.

## MAE COEDYDDIAETH YN YRFA GWYCH

Wrth gymryd mantais o broffil coed ac wrth hyrwyddo pwysigrwydd a dengarwch coedyddiaeth fel gyrfa fe allwn weithio at sefyllfa ble mae'r ieuenctid - o oedran ysgol ac yn uwch - ac hefyd rhai sy'n chwilio am yrfa newydd, yn edrych at goedyddiaeth fel gyrfa hyfyw, amryiol, cyffrous a gwerthchweil. Dylai coedyddiaeth a gofal coed bod yn yrfa sydd ar gael i bawb.

## MEINTOLI'R LLES

Mae llawer o waith eisoes wedi gwneud i wella amgylchedd a lles cymdeithasol ac economaidd coed trefol a chymunedol. Mae'r goedwig trefol yn isadeiledd amlswyddogaethol sy'n cyfrannu tuag at yr afael a phroblemau a wynebir gan gymdeithas. Rhaid i ni ddefnyddio'r wybodaeth i hyrwyddo'r ffaith bo rhaid i gymdeithas gwir werthfawrogi eu coed cymunedol a sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau.

## MAE COED YN RHAN O'R ATEB

Yng ngwyneb yr argyfwng hinsawdd mae coed yn aml yn cael eu rhoi ymlaen fel ateb i'r broblem. Dydy hwn yn amlwg ddim yn wir ond mae coed cymdeithasol a threfol yn bendant yn rhan o'r ateb, ac mae gan broffesiwn coedyddiaeth a gofal coed y cyfle i gynnig eu gwybodaeth a sgiliau er mwyn helpu a lliniaru ambell o effeithiau yr argyfwng hinsawdd.

## ARBENIGWYR MEWN BIODDIOGELWCH

Yn aml rydym yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i ddatrys y broblem, ond yn anffodus nid yw hyn yn digwydd ar bob achlysur. Fe allwn weithio i wella ymwybyddiaeth o fioddiogelwch er mwyn annog pawb i ddilyn y rheolau ac i gymryd mantais o gynlluniau e.e. 'Plant Healthy Certification'. Mae ambell i bla e.e. lladdfa yr onnen erbyn hyn yn adnabyddus i'r cyhoedd ac wedi codi ymwybyddiaeth.

# EIN GWELEDIGAETH

**Er mwyn creu cymdeithas sydd yn gerthfawrogi ac yn gofalu am goed rhaid ysbrydoli, cefnogi ac hyrwyddo hyn oll yn y gymdeithas.**



## FE FYDD Y GYMDEITHASFA YN:

## YSBRYDOLI

### CYNWYSOLDEB AC AMRYWIAETH

Rhaid creu diwylliant o fewn ein symudiad ac o fewn y proffesiwn ehangach sydd yn croesawu ac yn derbyn pawb i fewn i gymdeithas sy'n gofalu am goed. Yn ogystal rhaid i'r proffesiwn adlewyrchu y gymdeithas yr ydym yn byw.

### PENCAMPWYR COED

Rhaid cynnal a chefnogi ein haelodau a Chefnogwyr Gofal Coed a'r proffesiwn ehangach i fod yn bencampwyr ym maes arbenigedd am ofal coed ac hefyd i werthfawrogi ac ysbrydloi eu cymdeithasau i werthfawrogi eu coed ac hefyd y proffesiwn coedyddiaeth.

### DILYNIANT

Annog y genhedlaeth nesaf  o goedyddwyr wrth ddangos bod coedyddiaeth yn broffesiwn ffantastig. Mae'r proffesiwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau i ysbrydoli ein pobl ifanc sy'n chwilio am alwedigaeth ac hefyd myfyrwyr sydd efallai yn ystyried newid gyrfa.

### STAFF A GWIRFODDELWYR

Rhaid sicrhau bod ein gwirfoddelwyr gan gynnwys Ymddiriedolwyr, aelodau Pwyllgor a Changhennau yn ogystal a thim y staff yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn ol yr angen sy'n eu hysbrydioli i ysbrydioli eraill.

# CEFNOGAETH

## AELODAETH

Rhaid gweithio gydag ein holl aelodau yn y Deyrnas Unedig yn ogystal ac yn ryngwladol i'w cefnogi yn eu datblygiad proffesiiynol ac i gynnig cartref o fewn proffesiwn gofal coed sy'n ateb eu hanghenion ac yn cynrychioli eu diddordebau.

## ACHREDIADAU

Rhaid parhau i ddatblygu a thyfu y Contractwr Cymeradwy, y Contractwr Defnyddioldeb a'r Contractwr Cofrestredig er mwyn codi safonau ar draws y proffesiwn a chynnig sicrwydd i'r cyhoedd ac eraill sy'n perchen coed wrth ddilyn proffesiwn mewn coedyddiaeth.

## ADNODDAU

Cynhyrchu adnoddau o safon uchel gan gynnwys arweiniad technegol, cyhoeddiadau, deunyddiau coedyddiaeth, cylchgronau e.e. *ARB Magazine* ac yr *Arboricultural Journal* sydd ar gael fel copiau caled neu fersiynau digidol.

## HYFFORDDIANT

Cynnig datblydiad proffesiynol, fforddiadwy o safon uchel ar draws ystod eang o destunnau mewn fformiatau gwahanol bo hwnna yn berson i berson, ar-lein neu wedi'i recordio o flaen llaw ar gyfer pob lefel o wybodaeth a phrofiad.

# HYRWYDDO

## DIGWYDDIADAU

Cynnal nifer o ddigwyddiadau er mwyn hybu coedyddiaeth ac adeiladu a meithrin cymdeithas fywiogg o ofal coed a darparu'r cyfle i rannu syniadau a phrofiadau trwy gynnal digwyddiadau e.e. Sioe Coedyddiaeth a Chynhadledd Cymunedol ac hefyd gwybodaeth ar-lein e.e. cyfres 'Wednesday Webinar'.

## CYMRYD RHAN


Hyrwyddo gwaith ein haelodau a phroffesiwn coedyddiaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol, ein cymunedau, gwleidyddion, llunwyr polisiau a diwydiannau cysylltiedig gan sicrhau y bod coedyddiaeth yn cael ei cynrychioli fel proffesiwn allweddol hael ac hefyd cydweithredu gyda mudiadau proffesiynol eraill.

## CEFNOGWYR GOFAL COED

Cynnig cyfle i'r cyhoedd yn gyffredinol i gymryd rhan a chefnogi amcanion elusennol y Gymdeithasfa gan hybu gofal coed ac hefyd proffesiwn gofal coed yn gyffredinol a gwella'r dealltwriaeth am wyddoniaeth ac ymarfer coedyddiaeth.

## SIANELU CYFATHREBU A GWEFANNAU

Parhau i dyfu, cryfhau a llawn ddefnyddio ein cyfryngau cymdeithasol, denu cynulleidfa ehangach trwy gynnig gwefan newydd ei wedd gyda **trees.org.uk** yn cefnogi yr aelodaeth a **treecare.org.uk** yn wyneb cyhoeddus y Gymdeithasfa



# GWEITHREDA A MONITRO

**Mae Cynllun Strategol 2022-2024 yn cynnwys gweledigaethau lefel uchel ac amcanion strategol y Gymdeithasfa. Wedi cynnwys yn isod mae set o Gynlluniau Gweithredol penodol ar gyfer rhannau unigol o'r busnes gan gynnwys aelodaeth, achrediadau, cyhoeddiadau, hysbysebu a.y.b. sydd oll yn bwydo i fewn i'r amcanion strategol. Mae'r Cynlluniau Gweithredol yn cael eu cynhyrchu gan dim staff y Gymdeithasfa a'r Ymddiriedolwyr, wedi eu monitro a'u newid yn ol yr angen trwy eu hasesu a'u gwerthuso.**

Caiff y Cynllun Strategol ei weithredu a'i gefnogi trwy adolygiad trwyadl o bolisiau a gweithdrefnau yn ogystal a chynhyrchu dogfenau allweddol e.e. Llawlyfr Gwirfoddolwyr ac hefyd adolygu dogfenau sydd eisoes yn bodoli gan gynnwys Llawlyfr Staff. Fe fydd tim staff yn ogystal a'r Ymddiriedolwyr yn gweithio ar y cyd i benderfynu pa bolisiau a gweithrediadau sydd angen eu hadolygu, pa bolisiau a gweithrediadau sydd angen eu hadnewyddu'n llwyr a pha ardaloedd sydd angen eu blaenoriaethu. Fe fydd y broses o adolygu a diweddaru yn parhau trwy gydol cylchred strategol 2022-2024.

Fe fydd y Gymdeithasfa yn parhau i adrodd yn ol at yr aelodaeth yn ol y galw yn y ffordd draddodiadol. Bydd rhain yn cynnwys adroddiadau diweddaraf yng nghylchgrawn ARB, ar ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein gwefan yn ogystal a thrwy cyflwyniadau mwy ffurfiol e.e. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyhoeddi cyfrifon yn ein Adroddiad Blynyddol.

**Petai unrhyw aelodau o'r Gymdeithasfa neu budd-ddeiliaid allanol angen dysgu mwy ynglyn a'n cynnydd neu bo ganddynt unrhyw ymholiadau ynglyn a'r Cynllun Strategol yna cofiwch i gysylltu a ni.**

# CYMRYD RHAN

Er mwyn sicrhau llwyddiant y Cynllun Srategol fe fydd angen menbwn gan lawer o bobl nid yn unig staff y Gymdeithasfa a'r Ymddiriedolwyr. Petaech yn weithwr gofal coed proffesiynol, rhywun newydd i'r diwydiant, rhywun sy'n gweithio mewn sector tebyg, yn fyrfyriwr neu yn aelod o'r cyhoedd neu grwp cymunedol, petaech yn seiliedig yn y Deyrnas Unedig neu mewn gwlad arall - pwy bynnag neu ble bynnag yr ydych - mae nifer o ffyrdd i gymryd rhan.

## AELODAETH

Does dim amser gwell i ymuno a'r Gymdeithasfa Goedyddiaeth, mae nifer o raddiau o aelodaeth i ateb gofynion pob un o'r aelodau proffesiynol a'r gymuned ofal coed ac hefyd ystod eang o fuddianau ar gyfer aelodau. Am ragor o wybodaeth ebostiwch **members@trees.org.uk**

## CEFNOGWR GOFAL COED

Wedi anelu at aelodau'r cyhoedd a grwpiau cymunedol sy'n awyddus i gefnogi'r Gymdeithasfa wrth rannu ei hamcanion elusennol. Mae bod yn gefnogwr gofal coed yn ffordd uniongyrchol o helpu coed cymunedol a threfol yn ogystal a'r bobl sydd yn gweithio gyda nhw. Am ragor o wybodaeth ewch at **www.treecare.org.uk**

## GWIRFYDDOLI

Mae'r Gymdeithasfa yn ddibynnol ar ei gwirfyddolwyr. Oes diddordeb gyda chi mewnymuno gydag ein Ymddiriedolwyr neu ymuno a Chymdeithas neu gweithgor neu efallai ymuno gydag eich Cangen lleol? Am ragor o wybodaeth ebostiwch **admin@trees.org.uk**

## HYFFORDDI

Mae'r Gymdeithasfa yn cynnig ystod eang o gyrsiau hyfforddi o'r safon uchaf ar gyfer unrhyw un sydd a diddordeb mewn coed. Gyda chyfuniad o hyfforddi personol, y we a chynnwys a recordwyd eisoes fe allwch bod yn gyfredol gyda holl ddatblygiadau'r diwydiant ac hefyd cefnogi eich datblygiad proffesiynnol CPD. Am ragor o wybodaeth ebostiwch **training@trees.org.uk**

## DIGWYDDIADAU

Trwy gydol y flwyddyn mae'r Gymdeithasfa yn cynnal digwyddiadau person i berson yn ogystal a rhai ar y we e.e. Cynhadledd Flynyddol Cymunedol, y sioe ARB, Cynhadledd y Myfyrwyr, Diwrnod Ffwngi Byd Eang a chyfres gweminar clodwiw yn rhad ac am ddim sy'n denu cynulleidfa byd eang. Does erioed wedi bod cyfleon cystal i ddysgu a chymdeithasu yn y byd yma. Am ragor o wybodaeth ebostiwch **events@trees.org.uk**

## ACHREDIADAU

Petaech yn gweithio ym maes coedyddiaeth beth am helpu codi safonau ar draws y proffesiwn trwy ymgeisio i gyraedd safon Contractiwr Cymeradwy, Contractiwr Defnyddioldeb Cymeradwy neu yn Ymgynghorydd Cofrestredig. Am ragor o wybodaeth ewch at **www.trees.org.uk/accreditation**

## CYHOEDDIADAU

Mae'r Gymdeithasfa yn cyhoeddi nifer eang o gyhoeddiadau sy'n cynnwys cynlluniau technelegol am ymarfer da. Hefyd Cylchgrawn ARB a Chylchgrawn Coedyddiaeth yn ogystal a chyhoeddiadau megis '*Fungi and Trees : Their Complex Relationships* and *Fungi on Trees : A Photographic Reference*'. Am ragor o wybodaeth ewch at **www.trees.org.uk/book-shop**

## CYFRANNU

Petaech yn dymuno cyfrannu at waith y Gymdeithasfa fel elusen ac wrth wneud hyn ein helpu i gyflwyno ein hamcanion elusennol yna os gwelwch yn dda meddyliwch am naill a'i cyfrannu neu i godi arian efallai trwy gynnal digwyddiad noddedig. Am ragor o wybodaeth ebostiwch **admin@trees.org.uk**

Arboricultural
ASSOCIATION
trees.org.uk

**Arboricultural Association**

The Malthouse, Stroud Green, Standish, Stonehouse, Swyddd Gaerloyw  GL10 3DL

Cymdeithasfa Goedyddiaeth Cyf. Cwmni sydd wedi ei gofrestri yn Lloegr yn  The Malthouse, Stroud Green, Standish, Stonehouse, Swyddd Gaerloyw GL10 3DL, UK. Rhif y cwmni 4070377.

Mae'r Gymdeithasfa Goedwigaeth yn elusen gofrestredig rhif 1083845.

**Cyhoeddwyd: Tachwedd 2021**

